

Canllaw i bobl  
ifanc ar

# DODREFNU EICH CARTREF...



[www.newport.gov.uk](http://www.newport.gov.uk)

Bydd y canllaw hwn yn rhoi **cyngor** a **gwybodaeth** i chi ar grantiau sydd ar gael i helpu tuag at ddodrefnu eich cartref.



**NEWPORT**  
CITY COUNCIL  
CYNGOR DINAS  
**CASNEWYDD**

## CANLLAW I BOBL IFANC AR BRYNU PETHAU I'CH CARTREF..

Dylech chi fod yn gallu cael rhywfaint o arian i'ch helpu i brynu rhywfaint o'r hanfodion hyn i'r cartref.

Bydd y canllaw hwn yn dweud wrthy'ch beth yw'r opsiynau.

i



## ARIAN AR GYFER EITEMAU...

Mae'n bosibl y byddwch yn gallu cael cymorth ariannol i brynu dodrefn neu eitemau eraill ar gyfer eich cartref. Gofynnwch i'ch ymgynghorydd personol am yr opsiynau hyn a sut i wneud cais amdanyh nhw.

### **Grant i'r rhai sy'n gadael gofal**

Ar hyn o bryd gallwch gael hyd at £1,200 tuag at gost eitemau ar gyfer eich cartref.

### **Cronfa Iwfans Disgresiynol**

Pan fyddwch yn ei chael yn anodd iawn cael arian, gallwch wneud cais i'r gronfa hon. Fe'i cynlluniwyd ar gyfer argyfyngau, er enghraifft, efallai y bydd eich budd-daliadau wedi stopio neu gael eu hoedi, neu mae darn hanfodol o ddodrefn wedi torri.

### **Cymorth gan gymdeithas tai**

Os ydych chi'n rhentu tŷ/fflat gan gymdeithas tai, mae'n bosibl bod ganddi gronfa y gallwch wneud cais iddi ar gyfer eitemau hanfodol neu fod â chysylltiadau â sefydliadau lleol sy'n cynnig eitemau â gostyngiad.

### **ISA i Bobl Iau**

Os ydych wedi bod yn derbyn gofal ers dros 12 mis bydd y Llywodraeth wedi sefydlu ISA i Bobl Iau ar eich cyfer. Gallwch fanteisio ar hyn pan fyddwch yn troi'n 18 oed.

### **Ymddiriedolaeth Capston i'r Rhai sy'n Gadael Gofal**

Mae gan yr ymddiriedolaeth hon rywfaent o arian ar gyfer eitemau hanfodol fel sofffa neu beiriant golchi. Mae'r ymddiriedolaeth yn cwmpasu Cymru a Lloegr felly mae arian yn gyfyngedig ac ar sail y cyntaf i'r felin. Mae'n RHAID eich bod hefyd wedi rhoi cynnig ar yr holl opsiynau eraill cyn gwneud cais i'r ymddiriedolaeth.

Dysgwch fwy yn [www.capstonecareleavertrust.org](http://www.capstonecareleavertrust.org)



Mae'n bosibl y bydd grantiau eraill y gallwch chi wneud cais amdanynt. I gael mwy o wybodaeth ewch i <https://grants-search.turn2us.org.uk>

## PRYNU EITEMAU NEWYDD...

Pan fyddwch yn prynu eitemau i'ch cartref mae angen i chi wybod beth yw eich hawliau fel defnyddiwr.

### **Cynhyrchion gwallus**

Er mwyn cael ad-daliad mae gennych 30 diwrnod i ddychwelyd cynnyrch gwallus i'r siop lle y prynoch chi ef. Os byddwch yn ei ddychwelyd ar ôl 30 diwrnod mae angen i chi roi cyfle iddynt drwsio'r eitem neu roi un newydd i chi. Os na allant ei thrwsio neu roi un newydd i chi, yna gallwch gael ad-daliad. Sicrhewch eich bod yn cadw eich derbynebaw.

Mae hawliau defnyddwyr tebyg yn berthnasol i eitemau digidol rydych chi wedi'u prynu.

*Dylai'r eitemau fod:*

- **o ansawdd boddhaol**
- **yn addas at y diben**
- **fel y disgrifiwyd gan y gwerthwr**
- **yn para am gyfnod amser rhesymol**

### **Gwarantau cynnyrch**

Mae'n bosibl y bydd rhai cynhyrchion yn dod gyda gwarant gwneuthurwr am ddim. Mae hyn yn gwarantu, am gyfnod amser penodol y byddant yn trwsio eitem neu'n rhoi un newydd i chi os bydd ganddi nam. Fel arfer mae hyn yn para am 12 mis ar ôl i chi ei phrynu ac fel arfer bydd rhaid i chi gofrestru'r cynnyrch.

### **Siopa o gwmpas**

Os ydych yn ystyried eitemau newydd, sicrhewch eich bod yn siopa o gwmpas er mwyn cael y pris gorau. Mae llawer o siopau sy'n gwerthu dodrefn, gan gynnwys rhai o'r manwerthwyr disgownt. Mae llawer mwy o siopau yn gwerthu eitemau i'r cartref fel offer coginio, dillad gwely ayyb.

**Mae'n bosibl y bydd y safleoedd isod yn ddefnyddiol i gymharu prisiau:**

[www.pricespy.co.uk](http://www.pricespy.co.uk)

[www.kelkoo.co.uk](http://www.kelkoo.co.uk)

## GWEFANNAU DEFNYDDIOL...

[www.which.co.uk/consumerrights](http://www.which.co.uk/consumerrights)

[www.moneysavingexpert.com](http://www.moneysavingexpert.com)

[www.citizensadvice.org.uk](http://www.citizensadvice.org.uk)

## EITEMAU AIL-LAW...

Gallwch hefyd gael dodrefn gwych o'ch siop ailddefnyddio/elusennol leol. Dyma rai awgrymiadau gwych os byddwch yn prynu ail-law.

Mae'n bosibl y bydd eich sefydliad ailddefnyddio lleol yn cynnig gostyngiad i unigolion sydd ar fudd-dal penodol, ac mae'n bosibl y bydd ganddo gysylltiad â'ch cymdeithas tai leol i gynnig rhai eitemau am lai o arian neu hyd yn oed am ddim. Gofynnwch yn y siop i weld a yw hyn yn berthnasol.

### **Diogelwch trydanol**

Os byddwch yn prynu cynnyrch trydanol, mae'n rhaid i chi wirio:

- **A gafodd brawf dyfeisiau cludadwy? Mae hyn yn golygu y cafodd ei wirio o ran ei ddiogelwch trydanol. Bydd ganddo sticer sy'n debyg i'r un ar y chwith.**
- **A gafodd brawf 'swyddogaeth'? Mae hyn yn golygu bod y sefydliad wedi gwirio ei fod yn gwneud yr hyn mae i fod i'w wneud, er enghraifft mae oergell yn cyrraedd y tymheredd cywir ac yn aros arno.**

Bydd y rhan fwyaf o siopau yn cynnig gwarant o ryw fath gyda'u cynnyrch trydanol.



[www.newport.gov.uk](http://www.newport.gov.uk)

## Dychweliadau

Er bod eitem yn ail-law, mae rhai hawliau sylfaenol i gwsmeriaid o hyd:

- mae'n rhaid i'r eitem fod fel y'i disgrifiwyd
- mae'n rhaid ei fod yn gweithio
- mae'n rhaid iddo bara am gyfnod amser rhesymol

## GWEFANNAU DEFNYDDIOL...

Hawliau cwsmeriaid - [www.moneysavingexpert.com](http://www.moneysavingexpert.com)

Eitemau am ddim - [www.freecycle.org](http://www.freecycle.org)

## RHESTRAU LLEOL...

[www.charityretail.org.uk](http://www.charityretail.org.uk)

[www.eBay.co.uk](http://www.eBay.co.uk)

Facebook marketplace

[www.freeads.co.uk](http://www.freeads.co.uk)

[www.gumtree.com](http://www.gumtree.com)

Olio ([www.olioex.com](http://www.olioex.com))

[www.shpock.com](http://www.shpock.com)

[www.wastesavers.co.uk/reuse](http://www.wastesavers.co.uk/reuse)

